Cyngor Sgowtiaid
Ceredigion
Scout Council

Adroddiad Blynyddol 2007

Beavers · Explorer · Cubs · Network · Scouts

Tyfu, Cydnabod, Dathlu
Growth, Recognition, Celebration

centenary of scouting 2007

Mudiad y Sgowtiaid

Rhif Elusen Gofrestredig 306101 Wedi'i ymgorffori gan Siartr Frenhinol

Noddwr: Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II
Sylfaenydd: Yr Arglwydd Baden-Powell o Gilwell OM GCMG GCVO KCB LLD
Llywydd: Dug Caint KG GCMG GCVO
Prif Sgowt: Peter Duncan

Cyngor Sgowtiaid Ceredigion Scout Council

Rhif Elusen Gofrestredig 524859

Comisiynydd Rhanbarthol: Midge McGee

Diben y Sgowtiaid

Diben y Sgowtiaid yw hybu datblygiad pobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn yn gorfforol, yn ddeallusol, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol, fel unigolion, fel dinasyddion cyfrifol ac fel aelodau o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Dull y Sgowtiaid

Mae Dull y Sgowtiaid yn cynnig cynllun pleserus a deniadol o hyfforddiant cynyddol yn seiliedig ar Addewid a Deddf y Sgowtiaid, dan arweiniad oedolion.

Canmlwyddiant y Sgowtiaid

Roedd yr Arglwydd Robert Baden-Powell o Gilwell (1857-1941) yn filwr â medalau, yn artist dawnus, yn actor ac yn rhydd-feddyliwr. Daeth yn adnabyddus yn ystod ei yrfa filwrol am amddiffyn yn ddewr y faestref fach Mafeking yn Ne Affrica yn ystod y Rhyfel yn erbyn y Boeriaid, ac yn fuan wedyn daeth i enwogrwydd arbennig fel Sylfaenydd y Sgowtiaid.

Yn ystod y gwarchae, gwnaed argraff arno sut yr oedd bechgyn dan bwysau wedi mynd ati o'u pen a'u pastwn i wneud eu hunain yn ddefnyddiol a gwneud y gorau o adnoddau prin. Roedd eisoes wedi bod yn meddwl am ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer pobl ifanc ym Mhrydain, a chafodd ei annog gan ffrindiau i ail-lunio ei lawlyfr i filwyr (Aids to Scouting) ar gyfer y gynulleidfa iau hon.

Yn 1907 cynhaliodd wersyll arbrofol ar Ynys Brownsea, Poole, Dorset, i roi cynnig ar ei syniadau. Daeth ag 20 o fechgyn ynghyd, rhai o ysgolion bonedd a rhai o gartrefi dosbarth gweithiol, a'u rhoi mewn gwersyll o dan ei arweiniad ef. Mae'r byd i gyd bellach yn gwybod beth oedd canlyniad y gwersyll hwnnw.

Cyhoeddwyd Scouting for Boys yn 1908 mewn chwe darn bob pythefnos am 4d y copi. Roedd gwerthiannau'r llyfr yn anferthol, ac yn fuan aeth bechgyn ati i ffurfio 'Scout Patrols'. Bwriad cynnwys y llyfr yn wreiddiol oedd bod yn gymorth hyfforddi ar gyfer mudiadau oedd yn bodoli eisoes, ond yn y pen draw daeth yn llawlyfr Mudiad newydd a ledodd i bedwar ban byd. Roedd dealltwriaeth ddofn B-P o bobl ifanc yn amlwg wedi taro tant sylfaenol yn y wlad hon ac ymhellach. Ym mis Medi 1908, sefydlodd B-P swyddfa i ddelio â'r ymholiadau oedd yn llifo i mewn ynghylch y Mudiad.

Ers hynny mae Scouting for Boys wedi'i gyfieithu i lawer o ieithoedd a thafodieithoedd gwahanol.

Erbyn hyn mae tua 28 miliwn o bobl ifanc ledled y byd yn cymryd rhan yn antur y Sgowtiaid ac yn 2007 mae'r Mudiad yn dathlu ei ganmlwyddiant.

Cynnwys

2. Mudiad y Sgowtiaid

2. Canmlwyddiant y Sgowtiaid

4. Y Cadeirydd

5. Comisiynydd Rhanbarthol

6. Comisiynydd Maes

7. Beaver Scouts

7. Cub Scouts

8. Scouts

8. Explorer Scouts

9. Network

Rydym yn hynod ddiolchgar i Delyth Davies am gyfieithu y gwaith ysgrifenedig ar fyr rybudd. Diolch yn fawr iawn i'r rheiny ohonoch sydd yn garedig iawn wedi rhoi lluniau inni. Mae'n bosibl i chi arddangos eich ffotograffau ar y wefan, a'u gosod ym mhortffolio'r Ardal drwy eu gyrru at yr Ysgrifennydd.

Y Cadeirydd

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur iawn, a'r newidiadau i strwythur newydd yr Ardal wedi'u cyflwyno ar ôl llawer o gyfarfodydd bywiog drwy'r Ardal. Mae Pwyllgor Gwaith yr Ardal wedi cael nifer o gyfarfodydd ychwanegol i drafod oblygiadau ymarferol y newidiadau ac i egluro'r llwybrau cyfathrebu rhwng yr Ardal a'r Grwpiau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau Pwyllgorau Gwaith y Gogledd a Rhanbarth Teifi am eu hymroddiad i Fudiad y Sgowtiaid dros y blynyddoedd ac yn gobeithio y byddant yn parhau i gynorthwyo Sgowtiaid yng Ngheredigion yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Daeth marwolaeth Alec Carr ym mis Chwefror yn dipyn o sioc inni oll. Flynyddoedd maith yn ôl, Alec (oedd bryd hynny yn Gomisiynydd Ardal) oedd yr un ddaeth ataf i ofyn a fyddwn yn fodlon dod yn Gomisiynydd Rhanbarth ar gyfer Rhanbarth Teifi. Daeth Alec i'r Cyfarfod Blynyddol y llynedd a chaiff ei gofio am ei ffordd dawel a digynnwrf o arwain y Sgowtiaid yn y Sir.

Eleni bu i Fudiad y Sgowtiaid gydnabod cyfraniad Arweinwyr a chynorthwywyr y Sgowtiaid i sgowtio yng Ngheredigion drwy gyflwyno Gwobrau'r Mudiad iddynt – llongyfarchiadau!

Hoffwn fanteisio ar yr achlysur hwn i ddiolch o galon i Jim ein Hysgrifennydd, Donald ein Trysorydd, a Midge ein Comisiynydd Ardal, am eu holl gymorth drwy gydol blwyddyn brysur iawn.

Yn olaf, diolch yn fawr iawn, iawn i bawb wnaeth gynorthwyo i'n helpu i yrru ein mintai i Jamborî Sgowtiaid y Byd. Mae mynd i Jamborî Byd yn ddigwyddiad unwaith mewn bywyd ac i 16 o bobl ifanc yng Ngheredigion dyma gyfle i gwrdd â miloedd o Sgowtiaid o nifer o wledydd, rhannu profiadau, meithrin cyfeillgarwch, a dod yn ôl i ddweud y cyfan wrthym.

NJW Hill

Comisiynydd Rhanbarthol

Dechreuodd eleni gyda Phenwythnos Dathlu yn y Paddlers yn Llandysul lle dewiswyd 10 o bobl ifanc i gynrychioli Ceredigion yn Jamborî Canmlwyddiant 2007. Cynigwyd rhagor o lefydd yn ddiweddarach a chododd y rhif i 16. Ariannwyd y daith yn rhannol drwy godi arian, drwy grantiau a thrwy gefnogaeth rhieni. Rhoddwyd mwy o straen ar yr ochr ariannol gan i fintai fawr o Sgowtiaid Fforio o Ranbarth Teifi ac Aberystwyth fynd i Jamborî Serbia ym mis Awst. Oedd e werth e? Oedd mi roedd e!

Eleni gwelwyd adrefnu mawr ar strwythur yr Ardal. Mae'r gweinyddu Rhanbarth canolog wedi'i ddatganoli i'r Ardal gan ryddhau'r Gwirfoddolwyr Rhanbarth i ganolbwyntio ar y Sgowtio ei hun. Er y cafwyd peth gwrthwynebiad ar y dechrau, yn gyffredinol mae pawb wedi derbyn bellach y bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd, yn enwedig o ran arian a chyfathrebu.

Aeth pedwar cynrychiolydd i Gyfarfod Blynyddol Cenedlaethol y Sgowtiaid yn Warwick ym mis Medi. Yno gwelwyd gwerth Hyfforddiant Siaradwyr Ifanc yn uniongyrchol wrth i'r rhai ifanc ddwyn yr holl sylw!

Yn anffodus mae Dr David Lewis wedi gorfod rhoi'r gorau i fod yn Llywydd oherwydd ei iechyd a bydd colled ar ei ôl. Diolch i David am ei gefnogaeth frwd yn ystod ei amser gyda ni a dymunwn y gorau iddo.

Roedd hi'n bleser gennyf gyflwyno'r 'Silver Wolf', sef gwobr uchaf y Sgowtiaid, i'r Uwchgapten David Mills am flynyddoedd lawer o wasanaeth. Gwobrwywyd hefyd Fedal Teilyngdod a'r bar i fedal Teilyngdod i John Glyn Evans a John Morris am eu hymroddiad i'r Sgowtiaid.

Diolch i gefnogaeth y Loteri mae gennym ddeunydd Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd dwyieithog helaeth a fydd gobeithio yn cynyddu'r nifer o bobl ifanc sy'n ymwneud â'r Sgowtiaid yn lleol. Gyda chymorth Swyddog Datblygu rydym am ailagor Grŵp Sgowtiaid Aberaeron ac ailddechrau'r Afancod a'r Cybiau yng Nghastell Newydd Emlyn.

Roedd yn drist iawn gennym glywed am farwolaeth Dr Alec Carr, cyn-Gomisiynydd Ardal Ceredigion a oedd wedi ymddeol. Yn ei gyfnod ysbrydolodd nifer o Sgowtiaid ifanc, gan roi iddynt gyngor a chefnogaeth.

Mae gennym nawr Ysgrifennydd hynod ddeheuig, sef Jim, sydd wedi treulio oriau lu yn sefydlu gwefan yr Ardal – gwefan yr ydym yn falch iawn ohoni gan ei bod yn dod â Sgowtiaid Ceredigion i'r unfed ganrif ar hugain, yn ogystal â chadw pawb mewn cysylltiad ynghylch yr hyn sy'n digwydd a phryd. Mae Norman y Cadeirydd yn parhau i'n cefnogi a'n hannog i gyd ac yn sicr ni allai gwaith y Pwyllgor Gwaith barhau heb waith prysur a diwyd iawn y Trysorydd, Donald.

Yn olaf, mae'n rhaid i mi ddiolch i'r Hyfforddwyr a'r Timoedd Ardal a Rhanbarth, ac i'r holl Sgowtiaid a Chynorthwywyr sydd wedi gweithio mor galed gyda'n pobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf ac sydd wedi bod yn gyfrifol am lawer o'm brwdfrydedd a'm cymhelliant innau.

Midge McGee
Comisiynydd Rhanbarthol

Comisiynydd Maes

Bu Cyngor Sgowtiaid Cymru (CSC/WSC) yn llwyddiannus yn ei gais am grant gan Gronfa Cymunedau Gweithredol a weinyddir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r arian hwn, ynghyd â grant gan Fwrdd Grantiau Datblygu Mudiad y Sgowtiaid ac arian o adnoddau CSC ei hun, wedi'n galluogi i gyflogi tri Swyddog Datblygu Rhanbarthol yn llawn amser. Gwyddom o brofiad fod cyflogi rhywun i weithio'n uniongyrchol â Sgowtiaid lleol yn hybu recriwtio a chadw oedolion yn ein mudiad. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig mwy o Sgowtio i ragor o bobl ifanc. Mae gwaith y rhaglen dros y tair blynedd nesaf yn rhoi modd i Swyddog Datblygu weithio yng Ngheredigion ac, erbyn y bydd yr adroddiad hwn wedi'i gyhoeddi, bydd y gwaith eisoes wedi dechrau.

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm wedi ariannu'r CSC i weithio ag Arweinwyr Ifanc Sgowtiaid Fforio. Mae David Morris, cyn-Gomisiynydd Cymru i Sgowtiaid Fforio, wedi datblygu rhaglen hyfforddi lwyddiannus i Arweinyddion Ifanc ar gyfer Sgowtiaid Fforio o dan y cyd-deitl 'Tîm X'. Mae'r rhaglen hon wedi galluogi Arweinwyr Ifanc o bob cwr o Gymru i ddod ynghyd mewn lleoliad preswyl heb ddim cost iddynt hwy.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Pencadlys wedi penodi Prif Gomisiynydd newydd ar gyfer Cymru. Ei henw yw Jill Gloster, sef cyn-Gomisiynydd Ardal Eryri ac Ynys Môn. Dechreuodd Jill ar ei gwaith yng Nghyfarfod Blynyddol yr WSC yn Hydref 2006.

Roedd aelodau o staff CSC, gwirfoddolwyr uwch a nifer o bobl ifanc yn bresennol mewn diwrnod llwyddiannus iawn yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth. Rhoddodd hyn blatfform inni roi gwybod i aelodau'r Cynulliad ynghylch gwaith y Sgowtiaid. Gwnaeth y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad yr ymdrech i ddod i siarad â ni, gan gynnwys y Prif Weinidog a Jane Davidson y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Yn ystod haf 2006 cynhaliwyd Gwersyll Sgowtiaid Cymru Gyfan ar faes y Sioe Frenhinol. Daeth cannoedd o Sgowtiaid o bob cwr o Gymru i'r achlysur.

Mae aelod newydd o staff, Alison Harding, wedi ymuno â thîm gweinyddu Cyngor Sgowtiaid Cymru yn Llanilltud Fawr gan gymryd lle Helen Bhanaut.

Clive Bracewell
Comisiynydd Maes

Beaver Scouts

Mae Sgowtiaid Afanc yn cwrdd yn rheolaidd ledled Ceredigion. Mae'r plant 6 i 8 mlwydd oed hyn yn sicr wedi cyfiawnhau eu henw fel Afancod Prysur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae gweithgareddau wedi cynnwys Cysgu dros Nos, Gwersylloedd Teulu, Helfa Drysor, Garddio, coginio, codi cysgod yn y coed a throchi mewn pyllau i enwi ond rhai. Dathlodd Afancod Aberystwyth a Phenparcau 20 mlynedd o fod yn Sgowtiaid Afanc drwy gyfeiriadu yn Nant yr Arian ac wedyn cael Te Parti.

Yn rhan o'u blwyddyn roedd ymweliadau i Sioe Gangiau yn Solihull, yr adrannau Peledr-X a Ffisiotherapi yn Ysbyty Bronglais a'r Ganolfan Gloÿnnod Byw.

Roedd yr Afancod hefyd yn paredio yng Ngorymdeithiau Dydd y Cofio drwy'r Ardal. Ni allai dim o hyn ddigwydd wrth gwrs heb yr oriau lu y mae'r Oedolion sy'n Gwirfoddoli yn eu rhoi i redeg yr Afancod ac maent yn haeddu cael eu diolch yn wresog iawn.

Cub Scouts

Mae Sgowtiaid y Cybiau, sef y grŵp oedran 8 i 10 mlwydd oed, yn ffynnu drwy'r Sir er gwaethaf lleihad yn y niferoedd. Mae Aberystwyth yn ddiweddar wedi agor eu drysau i ail Bac Cybiau sy'n gyfan gwbl ddwyieithog.

Mae'r flwyddyn wedi cynnwys ailgylchu, coginio a choginio yn y goedwig, ffotograffiaeth, gwneud blancedi gwersylla, gwersylla, heicio a heicio yn y nos, caiacio, saethu â bwa, saethu â gynnau awyr, dilyn llwybr, lliwio tei, seryddiaeth, beicio mynydd, codi cysgod, dal pryfaid a throchi mewn pyllau, cyfeiriadu, printio teils ceramig a llawer, llawer mwy.

Mae'r cybiau hefyd wedi ymweld â gorsaf yr heddlu lle cawsant eu cloi mewn celloedd a chymryd eu hôl bysedd; aethpwyd hefyd i'r sinema; pantomeimiau; yr orsaf dân; ac ymweliad â Chaerdydd i gael penwythnos hir o weithgareddau o San Ffagan i Techniquest.

Bu iddynt gymryd rhan mewn Pantomeim, 'Pinewood Derby' lle roedd yn rhaid iddynt wneud eu ceir eu hunain a'u rasio, Gorymdeithiau Dydd y Cofio, a Sioeau Gangiau a Gala Nofio, ac yn olaf dathlu 90 mlynedd o Sgowtiaid y Cybiau gyda Thân Gwyllt a choelcerth.

Mae'r Arweinwyr yn dweud na fyddant yn gyrru bil am gost cuddio'r gwallt gwyn sydd wedi'u creu gan y grŵp bywiog hwn!

Scouts

Mae hwn yn grŵp oedran llawn her, gan amrywio o 10 i 14. Y gamp yw eu cadw yn brysur brysur ac maent yn sicr wedi bod. Mae'r gweithgareddau ledled y Sir wedi amrywio o caiacio, hwylio mewn cychod bach a chychod cyflym, saethu â bwa, saethu gynnau awyr, arloesi, adeiladau a rasio rafftiau, heicio a chyfeiriadu, i wersylla, codi cysgod, coginio mewn coedwig a pharti Nadolig a chysgu dros nos yn y Bwthyn yn Llynnoedd Teifi. Hefyd mae'r gweithgareddau mwy modern yn cynnwys chwilio ar y We a dylunio tudalennau Gwe.

Buont yn rhan o Sialens y Malvern, Gwersyll Sgowtiaid Cymru Gyfan a Theithiau Canŵ ar y Gwy a Hafren, y sialens 'Gwlyb, Gwlyb, Gwlyb' – sef cael pawb yn wlyb mewn cynifer o ffyrdd â phosibl – gêmau bwyd Olympaidd oedd yn cynnwys bwydo jeli gyda rhwymyn ar eich llygaid, pantomeim, Krypton Factor a 'Pinewood derby'.

Roedd yr ymweliadau yn cynnwys gwersyll haf yn Iwerddon, ac yno gwersyllodd 3ydd Sgowtiaid Aberystwyth â Sgowtiaid Wexford, gan barhau â thraddodiad a ddechreuodd yn y 1950au. Bu i'r Sgowtiaid hefyd gymryd rhan yng ngwasanaethau Dydd y Cofio a gynhaliwyd ledled y Sir.

Ac wrth gwrs, heb yr Arweinwyr ymroddedig ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl! Yn na fyddai?

Explorer Scouts

Yn olaf, ein grŵp oedran hynaf, y Sgowtiaid Fforio 14-18 mlwydd oed sydd wedi cael blwyddyn gyffrous iawn. Hedfanodd mintai fawr ohonynt i Serbia i fynd i'r Jamborî Rhyngwladol ynghyd â channoedd o Sgowtiaid eraill o wledydd eraill. Aeth dau o Fforwyr Teifi i forio ar y 'Tall Ship' i'r Asores gyda Sgowtiaid yr Asores.

Roedd gweithgareddau eraill yn cynnwys bod yn rhan o Jamborî ar y Llwybr, Teithiau Canŵ Cymru ar y Gwy a Llyn Gwynant, Rhediad yr Haul a Rhediad y Lleuad, heicio gan gynnwys heicio yn y nos, bowlio, saethu â bwa, saethu gynnau awyr, gwersylla, gwibgartio, mynydda, plastro, plymio, coginio, cerdded mewn ceunant, adeiladu a rasio rafftiau.

Bu i Fforwyr y Borth gymryd rhan yn eu pantomeim 'Robin Hood and the Cubs in the Woods' ynghyd ag aelodau eraill y Grŵp a fwynhaodd yr hwyl, ac, wrth gwrs, y Sialens 'Gwlyb, Gwlyb, Gwlyb'.

Mae nifer ohonynt yn gweithio tuag at eu Gwobrau Efydd ac Arian Dug Caeredin, ac wedi'u cael, ac mae dau hyd yn oed wedi llwyddo i gael y Wobr Aur eleni. Maent oll yn haeddu llongyfarchiadau gwresog am wneud gystal.

Unwaith eto, mae hyn ond yn digwydd oherwydd bod cynifer o oedolion ymroddedig yn gwirfoddoli ac yn fodlon rhoi o'u hamser i redeg yr unedau Fforio, trefnu'r gweithgareddau a chodi arian i dalu am y costau a all fod yn sylweddol ar adegau.

Network

Y rhain yw'r oedolion iau sy'n aelodau ac sy'n tueddu i beidio cael sylw gan eu bod fel arfer yn rhy brysur yn helpu yn yr adrannau Sgowtiaid eraill i gael yr amser i ymhél â'u gweithgareddau eu hunain. Y rhain yw'r bobl ifanc 18 i 25 mlwydd oed sydd nid yn unig yn rhoi eu hamser i'r aelodau iau ond sydd hefyd yn gweithio tuag at eu Gwobr Aur Dug Caeredin a Gwobr Sgowtiaid y Frenhines yn ogystal, yn y rhan fwyaf o achosion, ag astudio tuag at radd mewn Prifysgol.

Mae'n rhaid diolch yn wresog iddynt hwythau yn sicr.

www.ceredigionscouts.org.uk

08456 43 06 24